# Cyngor Sir Fynwy Crynodeb o Hunanwerthusiad

2023-24



monmouthshire
sir fynwy

# Crynodeb

Rydym am fod yn sir garbon sero, gan gefnogi llesiant, iechyd ac urddas i bawb ar bob cam yn eu bywydau. Byddwn yn gweithio gydag ac ochr yn ochr â'n cymunedau. Dyma'r uchelgais a nodir yn ein Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol.

Yr hunanwerthusiad hwn yw un o'r ffyrdd yr ydym yn dal ein hunain i gyfrif. Rydym yn olrhain y cynnydd mewn cymhariaeth â'n blaenoriaethau, yn dynodi gwersi i'w dysgu ac yn asesu ble y gellid gwneud gwelliannau er mwyn i ni allu cadw ar y llwybr cywir. Mae'n ofynnol i bob cyngor yng Nghymru wneud yr un peth dan ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r adroddiad hwn yn cyfleu casgliadau ein hunanwerthusiad am y cyfnod 2023-24

Mae Awdurdodau Lleol yn darparu cannoedd o wasanaethau. Ni all y gwerthusiad hwn ymdrin â phob un ohonynt. Yn hytrach, mae wedi ei strwythuro o amgylch chwe amcan y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol a nodir isod. Nid yw hyn yn golygu nad ydym yn rheoli perfformiad yn weithredol mewn meysydd eraill. Mae gennym bwyllgorau craffu a chynlluniau busnes yn eu lle er mwyn i gynghorwyr ddal uwch swyddogion ac aelodau'r Cabinet i gyfrif am gyflawni pob agwedd o'n gwaith.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn edrych ar rai trefniadau llywodraethu allweddol a swyddogaethau galluogol sy'n cefnogi ein gwaith. Mae hyn yn cynnwys pethau fel cynllunio gweithlu, defnyddio asedau a'n trefniadau rheoli ariannol. Rydym hefyd yn dibynnu ar waith ein tîm Archwilio Mewnol a'n rheoleiddwyr allanol fel Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

## Ein Amcanion

**Lle teg**
I fyw lle mae effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi'u lleihau

**Lle gwyrdd**
I fyw a gweithio gyda llai o allyriadau carbon, a gwneud cyfraniad cadarnhaol at fynd i'r afael â'r argyfwng yn yr hinsawdd a natur

**Lle ffyniannus ac uchelgeisiol**
Lle sydd â chanol trefi bywiog, lle gall busnesau dyfu a datblygu

**Lle diogel**
Lle mae gan bobl gartref maen nhw'n teimlo'n ddiogel ynddo

**Lle cysylltiedig**
Lle mae pobl yn teimlo'n rhan o gymuned ac yn cael eu gwerthfawrogi

**Lle i ddysgu**
Lle mae pawb yn cael cyfle i gyrraedd eu potensial



# Pa mor dda yr ydym yn deall ein cyd-destun lleol a'n lle?

Mae Sir Fynwy yn lle gwych ac yn un yr ydym yn falch iawn ohono, ac iawn hynny.  Mae gan ein sir yr ail economi fwyaf cystadleuol yng Nghymru ar ôl y brifddinas, Caerdydd, ac mae wedi gwella ei statws yn y Deyrnas Unedig ers 2019.  Mae'r bobl yma yn mwynhau, ar gyfartaledd, disgwyliad oes hwy ac iachach na rhannau eraill o Gymru.  Mae gennym drefi bywiog, atyniadau gwych i ymwelwyr ac rydym yn mwynhau cysylltiadau da â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.  Fodd bynnag, rydym hefyd yn wynebu heriau sylweddol. Rydym yn gwybod bod llawer o bobl yn ei chael yn anodd.  Mae prisiau uchel tai a rhenti mewn cymhariaeth â chyflogau yn ei gwneud yn anodd i rai pobl fyw yma.  Mae gennym hefyd  ôl troed carbon sydd yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig hefyd, sy'n cael ei achosi i raddau gan natur wledig y sir. Gall y prif ddulliau mesur hyn guddio amrywiaeth a rhywfaint o'r diffyg cydraddoldeb sy'n bodoli yn ein cymunedau. Mae gennym boblogaeth hŷn, sy'n dwyn manteision anferth o ran profiad a chyfalaf cymdeithasol ond a all hefyd roi pwysau ar wasanaethau cyhoeddus.

Mae gennym ddealltwriaeth dda o'n lle. Rydym yn dadansoddi gwybodaeth ystadegol amrywiol am bethau fel iechyd a'r economi leol. Rydym hefyd yn cael adborth ansoddol am dybiaeth preswylwyr o'n hardal o Arolwg Cenedlaethol Cymru a'n harolygon ein hunain. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad oes gennym ddealltwriaeth gynhwysfawr o ba mor dda y mae ein gwasanaethau a pholisïau yn bodloni anghenion y bobl sy'n eu defnyddio.

Mae gennym 46 o gynghorwyr ward sy'n ein helpu i ddeall materion lleol cymunedau lleol. Rydym hefyd yn ymgynghori'n uniongyrchol pan fyddwn yn cynllunio newidiadau i wasanaethau neu yn ystyried gweithredu mewn maes penodol.

Unwaith bob pum mlynedd rydym yn cynnal asesiad llesiant eang ac asesiad anghenion y boblogaeth gyda phartneriaid ar draws Gwent. Rydym wedi ceisio cael pobl i gyfrannu at lunio penderfyniadau, er enghraifft trwy hyrwyddo presenoldeb yn y fforwm cyhoeddus agored yr ydym yn ei gynnal cyn cyfarfodydd ein pwyllgorau. Rydym yn cydnabod bod llawer mwy i'w wneud i ddeall profiadau bywyd pobl fel rhan o'n hymrwymiad i weithio ochr yn ochr â phreswylwyr, gan eu galluogi i siapio eu dyfodol.





# Pa mor dda yr ydym yn cyflawni'r deilliannau yr ydym wedi cytuno arnynt?

Rydym wedi asesu ein cynnydd mewn cymhariaeth â chwe amcan ein Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol gan ddefnyddio graddfa chwe phwynt sy'n rhoi dyfarniad ar bob un o 1 (anfoddhaol) hyd at 6 (rhagorol). Ym mlynyddoedd cynnar y cynllun hwn mae llawer o'r gweithgarwch wedi bod yn ymwneud â deall heriau a datblygu ein dull. Bydd mwy o'r camau gweithredu i gyflawni yn disgyn i ail hanner y cynllun. Mae llawer o'r pethau yr ydym wedi eu nodi i'w gwneud, fel gwella iechyd afonydd a chyflawni sero net yn heriau cymdeithasol cymhleth a byddant yn cymryd amser i'w cyflawni. O ganlyniad, rhai o'r gweithgareddau yr ydym yn rhoi adroddiad amdanynt yn awr yw'r blociau adeiladu a'r cerrig milltir ar y ffordd i gyflawni'r deilliannau yr ydym yn eu bwriadu yn hytrach na'r deilliannau eu hunain.  Mae'r rhain yn rhoi'r sylfeini i ni ac yn gosod y llwybr ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.




## Lle teg i fyw

**Ein Dyfarniad: 4 (Da)**

Rydym am weld gwell cyfleoedd bywyd i bobl beth bynnag yw eu hincwm neu gefndir. Bydd yn cymryd amser i ni weld effaith ein gwaith. Yn y cyfamser, rydym wedi trefnu datrysiadau i liniaru effeithiau diffyg cydraddoldeb ar wahanol grwpiau o bobl.

Mae prydau iach yn yr ysgol yn helpu'r holl blant i ddysgu a ffynnu. Rydym wedi cyflwyno prydau ysgol am ddim i bawb mewn lleoliadau cynradd. Rydym yn datblygu dealltwriaeth o'r rhwystrau sy'n atal defnyddio'r cynllun fel ein bod yn gallu gweithredu i leihau'r rhain. Cynyddodd y gyfran o blant sy'n defnyddio'r gwasanaeth am ddim hwn o 64% i 75% yn y 12 mis hyd Fawrth 2024. Dengys ymchwil bod plant o deuluoedd incwm isel yn aml yn gallu mynd ar ei hôl hi dros fisoedd gwyliau'r haf. Rydym wedi darparu prydau iach a gweithgareddau yn ystod y gwyliau i geisio goresgyn hyn. Rydym yn gweithio gyda phenaethiaid ysgolion i dargedu hyn ar y rhai fydd yn cael mwyaf o fudd ac wedi dyblu'r nifer sy'n derbyn y cynnig hwn.

Mae diet da a bod yn gorfforol weithgar yn rhannau hanfodol o wella disgwyliad bywyd iach i bawb. Rydym yn gwybod y gall cyflawni hyn fod yn anos i bobl ar incwm isel. Rydym wedi datblygu strategaeth fwyd newydd sy'n cynnwys ymrwymiad i gynyddu mynediad at fwyd iach, cynaliadwy a fforddiadwy. Rydym hefyd wedi gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ac agor Hyb Cymunedol Magwyr a Gwndy £2.9M ar sail yr anghenion a ddynodwyd gan bobl leol.





**Lle gwyrdd**


I fyw a gweithio gyda llai o allyriadau carbon, a gwneud cyfraniad cadarnhaol at fynd i'r afael â'r argyfwng yn yr hinsawdd a natur

## Lle gwyrdd i fyw

**Ein Dyfarniad: 3 (Digonol)**

Rydym wedi ymrwymo i weithredu'n lleol i leihau ein hallyriadau carbon a chwarae ein rhan i daclo cynhesu byd-eang. Mae'r sgôr yr ydym wedi ei rhoi yn adlewyrchu natur gymhleth yr her yr ydym yn ei hwynebu.

Un o'r pethau y gallwn ddylanwadu arno yw lefel yr allyriadau o'n gweithrediadau ein hunain. Ar hyn o bryd rydym yn adeiladu ysgol garbon niwtral yn y Fenni. Rydym hefyd wedi ôl-osod goleuadau LED, paneli solar a phympiau gwres mewn llawer o'n hadeiladau cyhoeddus. Mae hyn wedi lleihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon. Rydym wedi datblygu cynlluniau ar gyfer cam nesaf y gwaith hwn. Rydym wedi bod yn cyfnewid ein fflyd am gerbydau allyriadau isel iawn pan fydd angen eu cyfnewid. Oherwydd y costau ni allwn wneud hyn mor gyflym ag y byddem yn hoffi. Rydym hefyd am helpu cymunedau i leihau eu hallyriadau. Rydym wedi sicrhau arian grant a gweithio gyda phartneriaid a gwirfoddolwyr i ddatblygu 'llyfrgelloedd o bethau', siopau ailddefnydd a chaffis trwsio i leihau'r gwastraff yn y sir. Mae ein preswylwyr hefyd wedi ailgylchu 71.7% o wastraff aelwydydd. Mae hyn ymhell uwchben y targed cenedlaethol o 64% a'n targed lleol o 70%. Mae lefelau'r ffosffadau yn Afonydd Wysg a Gwy yn parhau yn broblem fawr. Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â hyn. Mae Dŵr Cymru yn gosod technoleg tynnu ffosffad yn y Fenni a Threfynwy. Rydym yn y broses o gymeradwyo Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Bydd hyn yn sicrhau na fydd datblygiadau newydd yn cael effaith niweidiol ar ansawdd dŵr. Mae'r ffordd yr ydym yn tyfu, cludo a bwyta bwyd yn cael effaith ar yr amgylchedd. Rydym wedi cynhyrchu strategaeth fwyd newydd ac wedi rhoi grantiau i gefnogi tyfu cymunedol i gynyddu mynediad at gynnyrch lleol iach gyda llai o filltiroedd bwyd. Rydym wedi gweithio gyda ffermwyr lleol i dreialu defnyddio technolegau newydd i gynyddu cynhyrchu bwyd a chefnogi cynllun i ddarparu mentora i ffermwyr i'w galluogi i symud tuag at ddulliau ffermio mwy adfywiol. Mae'r amrywiaeth o waith yr ydym yn ei wneud yn ein helpu i ddeall graddfa'r her a'r llwybr y mae angen i ni ei ddilyn i gyrraedd ein nod. Rydym yn parhau yn uchelgeisiol yn ein nod o ddod yn sero net erbyn 2030. Rydym yn dangos cynnydd da ar ein camau gweithredu. Fodd bynnag, oni bai bod buddsoddiad cyhoeddus sylweddol, mae'r dystiolaeth yr ydym yn ei chasglu'n awgrymu y bydd cyrraedd ein targed yn eithriadol o heriol.



**Lle ffyniannus ac uchelgeisiol**

Lle sydd â chanol trefi bywiog, lle gall busnesau dyfu a datblygu

# Lle sy’n ffynnu ac yn uchelgeisiol

**Ein Dyfarniad: 4 (Da)**

Mae arnom eisiau economi amrywiol, yn creu twf cynaliadwy mewn cyflogaeth ac yn creu’r amodau ar gyfer ffyniant cyffredin lle gall busnesau a gweithwyr ffynnu. Rydym wedi cynhyrchu strategaeth Economi, Gwaith a Sgiliau newydd a fydd yn arwain y gwaith hwn.

Rydym am weld canol trefi bywiog trwy ein sir. Rydym wedi sicrhau cyllid ac yn gweithio gyda chynghorau tref, cymunedau a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu cynlluniau creu lleoedd i ffurfio’r gwaith hwn.

Rydym am i bobl o bob oed a chefndir gael y sgiliau i wneud yn dda yn eu gwaith neu ddechrau eu busnes eu hunain. Rydym wedi darparu cymorth i 165 o fusnesau lleol cyn eu sefydlu a busnesau sy’n bodoli. Rydym hefyd wedi rhoi cyngor cyflogaeth i bobl ddi-waith ac wedi helpu 115 o bobl i gael gwaith.

Mae trafnidiaeth a chysylltedd yn hanfodol i unrhyw economi. Rydym wedi datblygu strategaeth trafnidiaeth leol newydd. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid eraill i gyflwyno’r ddadl o blaid gorsaf newydd Rhodfa Magwyr ac rydym wedi dechrau datblygu cynigion i wella mynediad bysiau i’r gorsafoedd trên sy’n bodoli yn y sir. Yn y cyfamser, rydym wedi parhau i gynnal ein rhwydwaith ffyrdd a chyflawni 100% o’n rhaglen gynnal a chadw a gynlluniwyd.

Rydym yn sylweddoli ein bod yn rhan o economi fyd-eang ac rydym wedi chwarae rhan weithredol mewn partneriaethau economaidd rhanbarthol gan gynnwys Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Porth y Gorllewin a Phartneriaeth Gororau Ymlaen. Mae’r cynlluniau cydweithredol yma yn ein helpu i ddenu a chadw cwmnïau blaengar, denu buddsoddiad yn y sir a chynyddu allforion. Rydym wedi gweld tuedd ar i fyny yn y nifer o fusnesau yn y sir. Rydym hefyd wedi gwella ein safle ym mynegai gallu cystadleuol y Deyrnas Unedig.







Lle diogel

Lle mae gan bobl gartref maen nhw'n teimlo'n ddiogel ynddo

# Lle diogel i fyw

Ein Dyfarniad: 4 (Da)

Mae arnom eisiau i Sir Fynwy fod yn lle diogel y mae pobl yn falch o'i alw yn gartref gyda chynnydd yn y cyflenwad o gartrefi o safon dda, effeithlon o ran ynni. Rydym wedi paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd a fydd yn nodi'r fframwaith polisi manwl ar gyfer defnydd tir hyd at 2033. Oherwydd nifer o ffactorau bu'n rhaid oedi cyn mabwysiadu'r cynllun. Cyfyngodd hyn ar allu datblygwyr a chymdeithasau tai i ddarparu digon o niferoedd o gartrefi fforddiadwy.

Rydym wedi cyflwyno premiwm y Dreth Gyngor ar eiddo gwag er mwyn annog iddyn nhw gael eu defnyddio. Gall perchenogion tai sicrhau cyllid grant i gynorthwyo yn hyn o beth. Derbyniasom 36 cais am y cyllid hwn yn 2023-24. Cyfrannodd hyn at ostyngiad o 17% mewn cartrefi gwag o 541 i 447.

Cyfrannodd prisiau eiddo uchel, prinder llety preifat fforddiadwy ar rent a'r cynnydd mewn costau byw i gyd at broblem ddigartrefedd gynyddol. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i roi cymorth i bobl sydd mewn risg o fynd yn ddigartref. Fe wnaethom roi help ariannol i 261 o bobl y llynedd i aros yn eu cartrefi eu hunain neu i ddod o hyd i lety newydd. Rydym wedi caffael rhagor o eiddo hefyd i leihau'r defnydd o lety gwely a brecwast drud ac anghynaliadwy i aelwydydd digartref. Yn gyffredinol rydym wedi lleihau'r defnydd o wely a brecwast o 50% o 92 i 46 erbyn Mawrth 2024. Fel rhiant corfforaethol, rydym yn arbennig o ystyriol o anghenion y rhai sy'n gadael gofal. Rydym yn rhoi cymorth trwy ein panel rhianta corfforaethol, fodd bynnag, er gwaethaf gwaith y panel, fe brofodd 8 o bobl ifanc a adawodd ofal ddigartrefedd yn 2023-24 mewn cymhariaeth â 5 yn y flwyddyn flaenorol.

Cynyddodd cyfradd y digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol i bob 1,000 o'r boblogaeth ychydig o 10.6 i 13.1. Rydym wedi gweithio gyda phobl ifanc i ymdrin â'u pryderon am droseddau cyllyll ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac rydym wedi ymestyn tri gorchymyn diogelu man cyhoeddus i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rydym hefyd wedi ymateb i 619 o ddigwyddiadau diogelu amgylcheddol, fel gadael ysbwriel a thipio anghyfreithlon, gan ymdrin ag 84% o'r rhain cyn pen 3 diwrnod. Yn gyffredinol, dywedodd 95% o bobl yn Sir Fynwy a ymatebodd i Arolwg Cenedlaethol Cymru eu bod yn fodlon ar yr ardal fel lle i fyw sy'n cymharu'n gadarnhaol â rhannu eraill o'r genedl.



Lle cysylltiedig

Lle mae pobl yn teimlo'n rhan o gymuned ac yn cael eu gwerthfawrogi

Ein Dyfarniad: 4 (Da)

# Lle cysylltiedig lle mae pobl yn gofalu

Mae arnom eisiau i Sir Fynwy fod yn lle sy'n gwerthfawrogi cyfraniad pobl, lle maent yn teimlo'n rhan o gymuned ac yn gysylltiedig ag eraill. Ar draws y Deyrnas Unedig mae gwasanaethau cymdeithasol yn wynebu mwy o alw ac achosion mwy cymhleth. Mae Sir Fynwy'n gweld yr un duedd ac mae'n cymryd cyfran gynyddol o'n cyllideb yn flynyddol. Rydym yn gwybod bod nifer o ffactorau yn effeithio ar ein hiechyd a'n llesiant. Rydym wedi ymrwymo i weithio gydag eraill ar draws Gwent a'r Sefydliad Tegwch Iechyd i fynd i'r afael â'r rhain trwy ddod yn yr hyn a elwir yn Rhanbarth Marmot.

Mae help cynnar yn hanfodol i atal plant rhag dod dan ofal yr awdurdod lleol. Rydym wedi sefydlu dull wedi ei gydlynu o ymyrryd yn gynnar yn y gwasanaethau cymdeithasol plant. Rydym wedi cynyddu capasiti a lleihau amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau help cynnar. Dangosodd ein gwerthusiad bod 100% o bobl yn cofnodi deilliant cadarnhaol o'n gwasanaeth Adeiladu Teuluoedd Cryfach.

Rydym wedi cynhyrchu strategaeth newydd i ddatblygu mwy o leoliadau preswyl a llety â chymorth yn y sir. Hyd yn hyn rydym yn gweithio i ddarparu'r 32 lleoliad y mae arnom eu hangen ac rydym wedi comisiynu dau gartref preswyl newydd. Bydd hyn yn sicrhau bod plant yn gallu cadw'r cysylltiadau lleol a sefydlogrwydd y mae mawr eu hangen yn eu bywydau.

Rydym yn gweithio gydag Age Cymru a chydweithwyr yn y GIG i sicrhau bod pobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn brydlon. Fodd bynnag, roedd yr oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty ym Mawrth 2024 ar yr un lefel â deuddeng mis cyn hynny. Rydym hefyd am helpu pobl hŷn sy'n fregus i adennill eu hannibyniaeth. Fe wnaethom ddarparu 331 o becynnau gofal ail-alluogi yn 2023-24, cynnydd o 80% ar y flwyddyn flaenorol. Mewn 70% o achosion roedd hyn wedi lliniaru neu leihau angen pobl i gael cymorth hirdymor. Pan fydd ar bobl angen gofal, gall fod yn anodd ei drefnu weithiau oherwydd prinder gofalwyr. Rydym wedi ymdrin â hyn trwy nifer o atebion gan gynnwys cymorth i 'ficro-ofalwyr' hunangyflogedig. Cyfrannodd hyn at ostyngiad o 62% mewn angen gofal nad yw'n cael ei fodloni o 804 awr i 306 awr y mis. Rydym wedi agor cartref gofal arbenigol wedi ei adeiladu i'r diben newydd hefyd i bobl sy'n byw â dementia ac wedi hyfforddi gwirfoddolwyr cymunedol i gefnogi'r rhai sy'n byw gyda dementia yn y gymuned i gynyddu eu hyder a lleihau eu teimladau o unigrwydd a bod yn ynysig.









# Lle i ddysgu

**Ein Dyfarniad: 4 (Da)**

Dylai Sir Fynwy fod yn fan lle mae pawb yn profi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd ac yn cael y cyfle i ddysgu, gan ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth y bydd arnynt eu heisiau i gyrraedd eu potensial.

Gostyngodd lefelau presenoldeb yn yr ysgol ers y pandemig. Bu ein Swyddogion Lles Addysg yn gweithio gyda dysgwyr bregus ac mae gennym raglen benodol wedi ei thargedu at y rhai sydd â lefelau presenoldeb isel iawn. Fe wnaeth presenoldeb wella ar gyfer 92% o'r disgyblion a gymerodd ran. Yn gyffredinol fe wnaeth presenoldeb ysgolion cynradd wella rhwng blynyddoedd academaidd 2021/22 a 2022/23 mewn ysgolion cynradd ond fe wnaeth ddirywio o 88.4% i 87.7% mewn ysgolion uwchradd ac mae'n parhau yn is na'r lefelau cyn y pandemig.

Rydym yn cyflwyno dull bob yn gam o ymwneud â llesiant disgyblion. Rydym wedi cynyddu'r nifer o ysgolion ar y rhaglen o 43% i 74%. Rydym wedi gweld gwaethygu mewn ymddygiad sy'n heriol i ysgolion, staff a dysgwyr. Wrth ymateb i hynny rydym wedi rhoi hyfforddiant Ysgolion sy'n Ystyriol o Drawma i dros 500 o staff yn ystod y flwyddyn. Rydym yn cydnabod bod gennym fwy i'w wneud i ddatblygu ein dull yn y maes hwn.

Rydym wedi gweithio gyda'n gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol, a elwir yn EAS, i herio, monitro a gwerthuso addysgu a dysgu. Mae dysgwyr yn ein hysgolion uwchradd yn sgorio yn uwch na mewn mannau eraill yng Nghymru, ar gyfartaledd llwyddodd 26% o ddisgyblion ar draws Sir Fynwy i gael 5 neu fwy TGAU ar lefelau A*-A mewn cymhariaeth â 20.3% yng Nghymru gyfan. Mae gennym hefyd lai o ddisgyblion yn gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau ar 0.8%, mewn cymhariaeth â 1.4% o ddisgyblion trwy Gymru. Rydym yn gwerthuso ysgolion mewn cymhariaeth â rhai tebyg o ran maint ac iaith yr addysg ar draws Cymru. Ar y sail honno, roedd dwy ysgol uwchradd yn perfformio'n well na rhai tebyg ym mhob categori, ac mae un yn perfformio'n well yn y rhan fwyaf o gategorïau (gan gynnwys llythrennedd, rhifedd, gwyddoniaeth, dim cymwysterau, 5+ A*-A). Mae un o'n hysgolion y perfformio'n waeth yn y rhan fwyaf o gategorïau mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda dwy o'n hysgolion a roddwyd mewn categorïau statudol yn dilyn adolygiadau Estyn yn 22/23. Cynhaliwyd adolygiadau dilynol yn ystod 23/24; canfu'r rhain bod y ddwy ysgol wedi dangos cynnydd sylweddol wrth ymdrin â'r argymhellion ac maent wedi cael eu tynnu o'r categorïau statudol. Dewiswyd dwy o'n hysgolion a arolygwyd gan Estyn i gynhyrchu astudiaethau achos ymarfer da.

Mae gan ein gwaith bwyslais neilltuol ar ddysgwyr bregus gan gynnwys y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae hyn yn cynnwys cymorth wedi ei dargedu gan ymgynghorwyr addysg a chymorth ehangach fel rhan o'n gwaith ar ysgolion sy'n rhoi pwyslais ar y gymuned. Anelwyd hyn at sicrhau bod pob disgybl yn gallu llwyddo waeth beth ei gefndir cymdeithasol-economaidd. Mae bwlch cyrhaeddiad yn parhau sy'n cyfateb i 1.5 gradd TGAU ac rydym yn cydnabod bod gennym fwy o waith i'w wneud yn y maes hwn.

Rydym wedi ailstrwythuro ein gwasanaeth cynhwysiant addysg ac rydym wedi gweithio gyda'r holl ysgolion gyda hyfforddiant wedi ei dargedu a sesiynau holi ac ateb cyson. Rydym yn cydnabod bod angen gwella cysondeb y ddarpariaeth ADY i'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol ar draws y sir ac rydym wedi sefydlu system sicrhau ansawdd newydd i wella'r ffordd yr ydym yn dynodi a rheoli'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

Rydym yn adeiladu ysgol 3-19 newydd yn y Fenni. Bydd yr ysgol hon yn sero net gyda lle i dros 1,800 o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai ag anghenion niwro-ddatblygiadol a dysgu cymhleth. Bydd yr ysgol yn agor ei drysau o Ebrill 2025. Rydym wedi datblygu cynlluniau hefyd a sicrhau cyllid i gynyddu ein darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.



## Pa mor effeithiol y mae adnoddau'n cael eu defnyddio i gyflawni ein blaenoriaethau?

Mae gennym drefniadau cadarn yn eu lle i alluogi a chefnogi cyflawni gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys cyllid, rheoli gweithlu, digidol, rheoli asedau, perfformiad a rheoli risg. Serch hynny mae effaith cyfnod maith o gyni ar gyflawni gwasanaethau ynghyd â'r argyfwng costau byw a chwyddiant uchel wedi ein bwrw.

Rydym wedi wynebu cynnydd yn y galw am wasanaethau, fel gofal cymdeithasol a digartrefedd, tra bod chwyddiant wedi cyfrannu at gynnydd yn y costau mewn meysydd fel cludiant o'r cartref i'r ysgol. O ganlyniad, mae'r cyngor wedi bod angen tynnu ar ei arian wrth gefn i gael cyllideb gytbwys am y tro cyntaf mewn mwy na degawd. Rydym yn awr yn adolygu ein strategaethau galluogi i ymateb i heriau a chyfleoedd a'u cysoni â'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol.

## Pa mor effeithiol yw'r cyngor wrth weithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid ar y deilliannau y cytunwyd arnynt?

Mae partneriaeth yn greiddiol i'r ffordd yr ydym yn gweithio. Mae gan y cyngor berthynas effeithiol yn ei lle gydag amrywiaeth o randdeiliaid sy'n ein helpu i gyflawni ein diben. Mae'r rhain yn amrywio o bartneriaethau strategol ar raddfa fawr fel Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i wasanaethau a rennir gyda chynghorau eraill ar gyfer gwasanaethau fel troseddau ieuenctid, caffael a refeniw a budd-daliadau. Mae gennym berthynas waith gadarnhaol gyda Llywodraeth Cymru. Rydym yn cydnabod y gallwn a bod rhaid i ni wneud mwy i ddatblygu ac adeiladu ar ein perthynas gyda chynghorau cymuned a thref.

## Meysydd i'w Datblygu

Trwy'r hunanwerthusiad, rydym wedi dynodi pa mor dda yr ydym yn gwneud a beth allwn ni ei wneud yn well. Byddwn yn edrych ar adeiladu ar y pethau yr ydym yn eu gwneud a dysgu oddi wrthynt a cheisio gwella meysydd lle gallwn wneud yn well. Rydym wedi datblygu cynllun gweithredu sy'n nodi sut y byddwn yn ymdrin â'r meysydd i'w datblygu.

## Mesur Cynnydd

Rydym yn defnyddio ystod eang o ddulliau mesur perfformiad i olrhain ein cynnydd mewn cymhariaeth â'n blaenoriaethau. Fe welir y rhain trwy gydol yr asesiad. Rydym hefyd yn olrhain cynnydd mewn cymhariaeth ag ystod o fatrics sy'n olrhain deilliannau ar lefel poblogaeth. Bydd y dulliau mesur allweddol yn cael eu cyflwyno'n gyson i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg fel ein bod yn gallu rheoli perfformiad yn weithredol ac addasu'r cyflwyno pan fyddwn yn brin o gyrraedd y disgwyliadau.

## Beth ydych chi'n ei feddwl?

Rydym wedi cynnwys rhywfaint o'r adborth yr ydym wedi ei dderbyn gan sefydliadau eraill a byddem yn falch iawn o glywed eich barn i helpu i fod yn sail i asesiadau'r dyfodol.

Anfonwch e-bost atom yn:
**improvement@monmouthshire.gov.uk**

